

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Joyce Lloyd (Llanfair) a fydd (gobeithio!) wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Abergele ddiwedd yr wythnos. Gweddiwn y bydd y cwbl yn mynd yn ddi-helynt iddi ac y caiff adferiad buan. Mae'n dda cael adrodd fod Elwy Owen (Llanefydd) bellach wedi cael dod adref o'r ysbyty. Dymunwn wellhad buan iawn iddo yntau. Cofiw'n hefyd am Kate Davies (Llansannan) sy'n symud i gartref Coed Môr, Abergele am gyfnod. Gweddiwn y bydd yn profi adferiad a dedwyddwch yno dros yr wythnosau nesaf.
- Llongyfarchiadau i Elin Davies (Saron) a Jonathon ar achlysur eu dyweddiad.
- Dymuniadau gorau i David Jones (Henllan) fydd yn dathlu ei benblwydd yn go oed ar Fawrth 1af. Diolchwn i Dduw amdano, am ei waith a'i wasanaeth, a phob bendith iddo i'r dyfodol.

I ddo

- **TAITH 2016 CARE FOR THE FAMILY – "PARENTALK"** yng nghwmni Rob Parsons a Katharine Hill yn Eglwys y Bedyddwyr Prince's Drive, Bae Colwyn LL29 8LA nos Iau, Mawrth 10fed am 7.30. Tocynnau yn amrywio o £4.00 - £7.00, o'u cael ymlaen llaw neu fel grŵp. Cysylltwch â Mair erbyn Mawrth 2il os am archebu tocynnau.
- **CHRISTIAN VIEWPOINT** – Cyfarfod i'r merched yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel nos Lun, Mawrth 14eg am 7.30. Dr Rhiannon Lloyd fydd yno'n siarad am y gwersi a ddysgwyd gan wahanol rannau o'r byd am gymod. £3 yn cynnwys bwffe.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Henllan nos Fercher, Mawrth 23ain am 7.30 yng nghwmni Mrs Carys Davies, Cydlynnydd Rhaglen Dorcas yn y Gogledd.
- **OEDFA'R GROGLITH** yng Nghapel Cefn Berain nos Wener, Mawrth 25ain am 7.00. Pregethir gan y Parch. Christopher Prew.
- **LLANW** – Mae'r ŵyl Gristnogol hon yn cael ei chynnal yng Nghricieth eto eleni a hynny rhwng Mawrth 28ain – Ebrill 1af. Mae taflenni gwybodaeth ar gael – holwch Mair am gopi neu ewch i'r wefan: www.llanw.org
- **FFILMIO? DIM CLEM!** Diwrnod gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru i'r sawl dy'n ddi-blem am ffilmio! Bydd cyfle i ddysgu sut i greu a golygu ffilm ddigidol ar eich camera rhad/drud neu ffôn yng Nghapel Caersalem, Caernarfon LL55 2RB dydd Sadwrn, Ebrill 9fed o 10.00 tan 4.00. Cost: £5.00. Dewch a'ch cinio efo chi. Paneidiau ar gael trwy'r dydd! Am ffurflen gais, ffoniwch 01758 770490 neu ebostiwch gwyn@ebcpcw.org

Darlleniad Wythnos Nesaf

Luc 9:43b-45 (BCND tud. 75 / BCN tud.69)

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 28^{ain} Chwefror 2016

Darlleniad y Dydd

Josua 24:13-15

(BCND tud.219 / BCN tud.200)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd heddiw wrth i ni glosio at y Pasg. Rwy'n gallu dychmygu fod Jerwsalem adeg y Pasg yn debyg i Frwsel yr wythnos diwetha – yn llawn bwrlwm pobl o wahanol genhedloedd yn cyfarfod i drafod pynciau mawr y dydd ac yn gwrthdaro!

Daeth David Cameron adre gyda dêl – cydweithrediad arweinyddion Ewrop i weithio tuag at newidiadau yn y Cytundeb (Treaty) sy'n llywio holl wleidyddiaeth gweithredol Ewrop. Yn fuan iawn ar ôl cyrraedd adre fe aeth rhai ati i daflu dŵr oer ar ei ymdrechion gan honni nad ydi'r 'dêl' yn golygu dim gan na all y Prif Weinidog roi sicrwydd diamheuol fod y newidiadau sydd ganddo mewn golwg yn mynd i weld golau dydd. Druan ohono – mae'n sicr ynddo'i hun y bydd yn llwyddo, ond ni all ddweud hynny â'i law ar ei galon oherwydd fod y llwyddiant y byddai yn hoffi ei weld yn dibynnu ar benderfyniad sydd y tu hwnt iddo!

Mae Josua, fel arweinydd cenedl, yn gwybod am y dilema yma. Mae o, yn ei galon, yn gwybod y bydd Duw yn ffyddlon i'w Air ac yn llwyddo'r ymdrech i feddiannu Gwlad yr Addewid. Ond mae eraill yn gwrthod credu ac yn amau ei hyder. Dyma'r rhai sy'n dal yn ôl. Gallwn ddechmygu'r trafodaethau rhwng Josua a'r 'sgeptics'!

Yr hyn sy'n wfreiddiol am yr hyn sy'n cael ei ddatguddio am Dduw yn y Beibl ydi fod ei 'Gytundeb' Ef – ei 'Gyfamod' – yn hollol gadarn a gweithredol. Mae wedi pasio trwy lysoedd deddfwriaethol y nefoedd os mynnwch chi. Hynny yw, mae Cyfamod Duw wedi ei dderbyn yn llys cyfiawnder y nefoedd – mae'n gyfraith! A does dim modd ei gwyrddroi! Dyma argyhoeddiad Josua a sail ei hyder.

Yn wahanol i sefyllfa David Cameron, mae 'dêl' Duw hefo ni yn weithredol a chyfreithlon. Yr Arglwydd ei hun sydd wedi sgwennu'r Cyfamod yma a fo sydd yn ei weithredu! Yng ngeiriau'r hen emyn "nid ie a nage yw"! Dydi Duw ddim yn gwneud cytundeb hefo ni ac yn dweud 'nage' ar ôl iddo ddweud 'ie'!

Ystyriwch hyn hefyd, does dim newid ar y Cyfamod yma i fod chwaith gan mai gwaith gorffenedig Iesu sydd yn selio'r Cyfamod yn hanesyddol, a gwaith mewnol yr Ysbryd Glân sydd yn selio'r Cyfamod yma yng nghalon Cristnogion.

Her Josua fel y gwelwn o'r darlleniad heddiw ydi'r her i Gristnogion ym mhob oes – ydan ni yn credu fod Duw yn gallu rhoi gwlad yr addewid *sef rhoi y nefoedd yn feddiant i ni?* Yn y Cyfamod newydd yng Nghrist, mae Duw yn dweud y gall, ac yn yr un Cyfamod yng Nghrist rydan ninnau hefyd yn dweud y gall! Meddiannwn hi!

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 28^{ain} • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Celfyn Williams yn pregethu.
- Mawrth – 1^{af} • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher – 2^{il} • **Adnabod Addoli** yn Ffestri Llansannan am 7.30. (Paned am 7.15.)
- Iau – 3^{ydd} • **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener – 4^{ydd} • **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Llansannan am 7.30.
- Sadwrn – 5^{ed} • **Ysgol Sadwrn DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ am 10.00.
- Sul nesaf – 6^{ed} • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion a'r ieuencid, a bydd y Parch. Rhun Murphy yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 28^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 6^{ed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yno am 11.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00.

Llansannan

- Sul yma – 28^{ain} Bydd Gwion yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Gwener – 4^{ydd} Swper Gŵyl Ddewi Cymdeithas Llansannan yn y Ffestri am 7.00. Yn dilyn y swper, bydd adloniant gan Mali Elwy. Enwau i Bethan Batty (870374) erbyn dydd Sul, Chwefror 28ain, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 6^{ed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 28^{ain} Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Mawrth – 1^{af} Cofiwch am Gymdeithas Chwiorydd Groes, Peniel a Nantglyn – Swper Gŵyl Ddewi yng Nghlwb Golff, Dinbych am 6.30 yng nghwmni Meinir Jones, Nebo.
- Sul nesaf – 6^{ed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 28^{ain} Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Saron ac ym Mheniel am 10.00. Bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yn Saron ac ym Mheniel am 2.00.
- Mawrth – 1^{af} Cofiwch am Gymdeithas Chwiorydd Groes, Peniel a Nantglyn – Swper Gŵyl Ddewi yng Nghlwb Golff, Dinbych am 6.30 yng nghwmni Meinir Jones, Nebo.
- Sul nesaf – 6^{ed} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 28^{ain} Bydd Mr Trebor Roberts yn arwain oedfa yn Henllan am 2.00 a'r Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Mawrth – 1^{af} Cofiwch am Gymdeithas Chwiorydd Groes, Peniel a Nantglyn – Swper Gŵyl Ddewi yng Nghlwb Golff, Dinbych am 6.30 yng nghwmni Meinir Jones, Nebo.
- Sul nesaf – 6^{ed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Groes am 10.00 a bydd Gwasanaeth Gŵyl Ddewi Undebol yng Nghapel Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 28^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Mercher – 2^{il} Cynhelir Swper a Sgwrs Cymdeithas Capel Llanefydd yng Nghapel Llanefydd am 7.00. Oedolion £4, Plant £2. Enwau i Manon Bryn Deunydd neu Rhian Ivy House erbyn nos Sul, Chwefror 28ain, os gwelwch yn dda.
- IAU – 3^{ydd} Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. (Sylwch ar y newid diwrnod !)
- Sul nesaf – 6^{ed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgolion Sul yn cydreddeg.

Manylion Cyswllt

- Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📞 07775 701102
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07849 591163
- Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07900 308461
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.